

Ffyrdd o Ganfod – Ways of Perceiving

Dyn a Daear – Man and Earth

Enw Myfyriwr: Emily Sullivan

Rhif Myfyriwr: 1901262

Teitl Cwrs: BA Photography in the Arts

Modiwl: ADAD4019C

Enw Tiwtor: Ryan Moule

Cyfrif Geiriau: 1,549

Cyflwyniad

Mae'r arddangosfa, *Dyn a Daear*, yn cyflwyno gwaith sy'n gysylltiedig â chelf tir; symudiad celf gysyniadol o'r 60au a'r 70au (Tate, Year Unknown). Mae'n cynnwys cerflunio'r tir ei hun neu wneud strwythurau gan ddefnyddio deunyddiau naturiol (Tate, Year Unknown). Wnaeth celf tir arlunio ar symudiadau diweddar yr amser megis, minimaliaeth, De Stijl, ciwbiaeth a thueddiadau gwleidyddol fel amgylchyddiaeth (Phaidon, 2016)(Unknown, 2011).

Nid oes gennym ni cysylltiad iachus gyda'n hamgylchedd. Ond, gyda'r sefyllfa coronafeirws, rydym yn gweld gwelliant mawr yn iechyd ein hamgylchedd. Bydd map yn dangos yr effaith mae hunanyngysu'r coronafeirws wedi cael ar yr amgylchedd yn Tsieina; lle cychwynnodd y firws.

Gan gynnwys gwaith gan artistiaid megis, *Richard Long* a *Robert Smithson* byddai'r arddangosfa yn pwysleisio'r perthynas rhwng *Dyn a'r Ddaear*.


Cyd-Destun

Celf tir yw protest artistig yn wynebu, artiffisialrwydd, estheteg blastig a masnacheiddio celf (Unknown, 2011). Cafodd yr artistiaid eu denu at symlrwydd wrthrychau minimalaidd, y defnyddiau pob dydd a ddefnyddiwyd gan *Arte Povera*, a'r "social sculptures" cyfranogol gan *Joseph Beuys* (The Art Story, Year Unknown).

Mae gan gelf tir elfen ddadleuol a gwleidyddol. Mae'r artistiaid yn ad-drefnu cyflwr naturiol y ddaear. Trwy ymyrryd ar y dirwedd a chreu cyfres o wneuthuriadau sy'n procio'r meddwl, mae nifer yn ceisio codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r perthynas afiach rhwng dyn a'r byd naturiol. Mae lleoliad y gwaith yn bwysig er mwyn creu cyd-destun effeithiol.

Wnaeth *Richard Long* a *Robert Smithson* cyfrannu'n sylweddol at ddechrau'r symudiad. Roedd y ddau yn anwybodol yn creu gwaith yn 1967 bydd yn cyfrannu at ddechrau'r symudiad Celf Tir. Cerddodd *Long* dro ar ôl tro dros wair, mewn llinell syth nes bod hynt ei draed yn gadael olion clir. Cipiodd llun o'r llinell i'w gadw. Ar ochr arall yr Atlantig, roedd *Smithson* wrthi'n tynnu ffotograffau o'i thref enedigol New Jersey yn diddori yn y tryciau mwyngloddio oedd yn cludo tunelli o bridd a chreigiau (Phaidon, 2016). Roedd y ddau ohonynt yn gweld potensial mewn defnyddio'r amgylchedd fel cyfrwng a darganfyddodd Celf Tir.

Cynllun Arddangosfa



Ffigur 1: Cynllun Arddangosfa

Nid yw celf tir yn cael llawer o werthfawrogiad. Dymunaf leoli'r arddangosfa mewn lleoliad naturiol sy'n cael gwerthfawrogiad mawr. Penderfynais ar draeth Rhossili gan ei fod yn ardal o brydferthwch naturiol ac yn denu nifer o bobl i'r ardal pob flwyddyn. Yn ystod 2018, wnaeth 67,579 o bobl ymweld â Rhossili a'r atyniadau o'i hamgylch (McAllister, 2020:51).

Byddai'r arddangosfa yn cael ei chreu allan o dair wal 5x5 metr gydag agoriad yn wynebu allan i'r môr ac ymylon y clogwyni. Ni fydd gan yr arddangosfa to ac felly byddai'r tywydd yn cael effaith arno fel darnau o waith celf tir. Bydd tywod naturiol y

traeth yn ffurfio'r llawr fel bod olion traed ymwelwyr i'r arddangosfa yn marcio yn y tywod yn union fel ein bod ni yn marcio'r byd gyda'n ffyrdd o fyw negyddol.

Mae'r map wedi ymestyn dros wal cefn yr arddangosfa i ddangos gwir faint y newid yn yr hinsawdd. Gosodais y ffotograffau ar y wal i'r chwith, wrth ymyl y map er mwyn ceisio pwysleisio ni fydd angen i ni newid gormod o elfennau mawr o'n bywydau i wella'r byd. Mae cerflun *Robert Smithson* yn ganolradd i'r arddangosfa o achos ei arwyddocâd yn y symudiad yn ystod y diwrnodau cynnar. Mae twnelu haul *Nancy Holt* yn allanfa i'r arddangosfa er mwyn dangos fod yna ffordd allan o'r sefyllfa er efallai ni fydd e'n syml i'w gyflawni.

Artistiaid a'u Gelf

Shirley Evans



Ffigur 2: Shirley Evans, The Grauballe Man I, 1996 (38x28 cm)

Shirley Evans yw'r artist lleiaf adnabyddus yn yr arddangosfa, yn byw yn Abertawe. Roeddwn i am gynnwys darn o'i gwaith gan ei fod yn lleol ac felly'n pwysleisio fod y niwed rydym yn achosi ymhob man.

Cafodd *Evans* ei hysbrydoli gan farddoniaeth *Seamus Heany*, '*The Graubelle Man*' ar gyfer y llun (Ffigur 2). Mae'r farddoniaeth yn creu delwedd glir o gorff cors sydd wedi derbyn llawer o gamdriniaeth gan ei gymrodyr ac yn ymadawiadu i'r ôl-fyd ('Northstar', August 2018).

Mae'r gwaith yn portreadu'r perthynas rhwng dyn a'r ddaear a'i hunaniaeth. Mae'n ymwneud â thyfu i fyny yn lwerddon ymhlith ladd disynnwyr a'i chariad at y cefn gwlad yng nghanol Cymru. Mae canlyniad y llun yn creu creadigaeth bersonol o leoliad cyfriniol, amwys a bythol (Crawford, 1997:31).

Richard Long



Ffigur 3: Richard Long, A Line Made by Walking, 1967 (3.75×3.24 cm)

O achos pwysigrwydd *Long* ar ddechrau'r symudiad, roeddwn i am sicrhau bod y llun (Ffigur 3) yn rhan o'r arddangosfa. Mae'r darn yn syml iawn a chafodd ddylanwad mawr ar y byd celf. Fel unrhyw waith sydd â rhyngweithiad gyda'r dirwedd, mae'n edrych ar y dilyniant llinol o fywyd dynol (Scovell, 2016). Mae llinellau yn bwysig iawn wrth greu celf ac yn ymadroddion cyntefig o berthynas dyn gyda'r Ddaear. Rydym eisoes wedi profiadu'r Ddaear trwy gerdded arno, yn gadael trywydd o'n llwybrau. Mae'r llinellau yn dangos ein taith (Hashmi, 2013).

Mae *Long* yn defnyddio'r dirwedd ei hun fel defnydd crai. Dywedodd mewn cyfweiliad gyda'r Guardian (Higgins, 2012), "*I knew i was doing something interesting...To be walking lines in fields was a bit different*". Roedd ei ddarn yn hawlio cerdded fel celf.

Robert Smithson



Ffigur 4: Robert Smithson, Rocks and Mirror Square II, 1971 (36hx220wx220d cm)

Wnaeth *Robert Smithson* cyfrannu yn aruthrol at ddechrau'r symudiad. Cafodd ei hysbrydoli gan dryciau mwyngloddio yn ei thref enedigol (Phaidon, 2016). Ers ei farwolaeth, mae wedi cael ei henwi yn un o'r artistiaid fwyaf cydnabyddedig o'r ugeinfed ganrif (Arts Review, 2018).

Mewn cyfweliad meddai *Smithson* "*You're constantly not seeing what you think you see*" (Smithson, 1979:224). Wrth edrych ar y cerflun yma (Ffigur 4), roeddwn i'n gweld ciwb wedi'u chreu allan o ddrychau gyda chreigiau yn pwysu ar yr ochrau. Wrth edrych yn ddyfnach, sylweddolais roeddwn i'n edrych ar bedwar drych yn sefyll i fyny yng nghanol y creigiau.

Nancy Holt



*Ffigur 5: Nancy Holt, Sun Tunnels,
1973-76 (550Lx270w cm)*



*Ffigur 6: Nancy Holt, Sun Tunnels,
1973-76 (550Lx270w cm)*

Yn ystod y 60au, roedd yna ddiffyg adnabyddiaeth ar gyfer artistiaid benywaidd, o achos hyn, roeddwn i am sicrhau fod gan fy arddangosfa presenoldeb benywaidd.

Mae'r twnelu yn rhoi sylw i rythmau naturiol y dydd a sut mae'r golau yn newid. Cymerodd *Holt* golau, amser, symudiad yr haul a'r lleuad a lleoliad y sêr mewn i ystyriaeth. Roedd hi am gysylltu ein profiadau personol ar Ddaear i'r prosesau uwchben (Rexer, 2019).

Mae '*Sun Tunnels*' wedi'u lleoli i farcio safle eithafol blynyddol yr haul ar y gorwel yn ystod diwrnodau'r heuldro. O amgylch y diwrnodau yma, mae'r haul yn goleuo trwy ganol y twneli (Ffigur 6). Mae gan y tyllau tu fewn (Ffigur 5) lleoliad unigol sy'n gyfatebol i'r sêr mewn pedwar cytser; Draco, Perseus, Columbia a Capricorn.

Michael Heizer



Ffigur 7: Gianfranco Gorgoni, Michael Heizer standing on Double Negative, North Las Vegas, Nevada, 1970 (25.6x37.1 cm)

Mae'r ffotograff yma (Ffigur 7) yn dangos yr artist, *Michael Heizer*, yn aros ar ben ei gwaith, '*Double Negative* (1969)'.

Ar edrychiad cyntaf, nid yw *'Double Negative'* yn edrych fel gwaith dyn ond fel nodwedd ddaearegol sydd wedi teimlo effaith amser a'r elfennau. Y cymesuredd llinol cryf, sy'n debyg i bensaernïaeth eglwys gadeiriol sy'n dangos nodweddion gwaith dyn (Lindquist, 2013).

Bellach, mae *'Double Negative'* wedi dechrau erydu. Mewn cyfweiliad gyda'r *Guardian* dywedodd Heizer, *"When I had no money and I made a work of art, maybe I couldn't afford to make it more resistant to the weather. I did, however, exploit that situation...I knew that some things dissipate, and I factored that into the work."* (Farago, 2015). Wrth iddo greu'r gwaith, roedd e'n ymwybodol ni fydd *'Double Negative'* yn para am byth.

Andy Goldsworthy



Ffigur 8: Andy Goldsworthy, Holes / Middleton Woods, Yorkshire / 1 February


1981, 1981 (3.93x2.93 cm)

Mae *Andy Goldsworthy* yn gerflunydd, ffotograffydd ac amgylcheddwr Albanaidd sy'n cynhyrchu cerfluniau a chelf tir mewn lleoliadau naturiol a threfol (Tate, Year Unknown).

Mae'n aml yn creu darn o waith ac yna'n diogelu trwy dynnu llun ohono. Yn ei lyfr '*Hand to Earth*' wnaeth trafod yr arwyddocâd o ffotograffiaeth yn ei gwaith. Mae pob darn o waith yn tyfu, aros ac yn pydru, mae'n rhan o gylchred lle gall ffotograff cipio'r gwaith ar ei gorau. (Goldsworthy, 2004:9).

Effaith y darn yma (Ffigur 8) yw un o fodrwyau consentrig afreolaidd (Delaney, 2010). Mae'r twll du fel fflam. Mae fflam yn wneud egni tân yn weladwy. Y twll du yw fflam y Ddaear- ei egni. Mae *Goldsworthy* yn cael ei denu at dyllau ac yn ei chymharu at yr ysfa o eisiau edrych dros ymyl clogwyn (Goldsworthy, 2004:24).

Map NASA



Ffigur 9: Joshua Stevens (NASA Earth Observatory), January 1 – February 25 2020, 2020

Mae'r map (Ffigur 9) yn dangos crynodiadau o nitrogen deuocsid; nwy gwenwynig sy'n cael ei allyrru gan gerbydau modur, gweithfeydd pŵer, a chyfleusterau diwydiannol. Mae'n dangos gwerthoedd NO₂ dros Tsiena o Ionawr (cyn cwarantin) i Chwefror (yn ystod y cwarantin). Yn ôl gwyddonwyr NASA, roedd y gostyngiad mewn llygredd NO₂ yn ymddangos dros Wuhan gyntaf ond wnaeth ymestyn i weddill y wlad (Patel, 2020).

Nid dim ond Tsiena sydd wedi gweld gwelliant yn llygredd y gwald. Yn ôl ymchwil cynnar mae Efrog Newydd, Yr Eidal a'r Deyrnas Unedig hefyd wedi recordio gostyngiad mawr yn lefelau nitrogen deuocsid (McGrath, 2020)(Henriques, 2020). Roeddwn i am gynnwys y map gan fod y data yn dangos i ni pa mor gyflym gallwn wella iechyd y Ddaear.

Ffigurau

Ffigur 1: Sullivan, E (2020) *Cynllun Arddangosfa*. [Digital Generated Image]

Ffigur 2: Evans, S (1996) *The Grauballe Man I*. [Photograph, silver print sepia toned] Ar gael: Crawford, A. (1997:33) *The Welsh Lens*. The Museum of Modern Art, Wales.

Ffigur 3: Long, R (1967) *A Line Made by Walking*. [Photograph, gelatin silver print on paper and graphite on board] Ar gael: <https://www.tate.org.uk/art/artworks/long-a-line-made-by-walking-p07149> (Cyrchiad ar: 3/4/2020)

Ffigur 4: Smithson, R (1971) *Rocks and Mirror Square II*. [Sculpture, basalt rocks and mirrors] Ar gael: <https://artsearch.nga.gov.au/detail.cfm?IRN=14990&PICTAUS=True> (Cyrchiad ar: 3/4/2020)

Ffigur 5: Holt, N (1973-76) *Sun Tunnels*. [Sculpture, concrete, steel and earth] Ar gael: <https://holtsmithsonfoundation.org/sun-tunnels> (Cyrchiad ar: 3/4/2020)

Ffigur 6: Holt, N (1973-76) *Sun Tunnels*. [Sculpture, concrete, steel and earth] Ar gael: <https://holtsmithsonfoundation.org/sun-tunnels> (Cyrchiad ar: 3/4/2020)

Ffigur 7: Gorgoni, G (1970) *Michael Heizer standing on Double Negative, North Las Vegas, Nevada* [Photograph, silver gelatin print] Ar gael: <http://www.getty.edu/art/collection/objects/130398/gianfranco-gorgoni-michael-heizer-standing-on-double-negative-north-las-vegas-nevada-italian-1970/?dz=0.5000,0.5000,0.50> (Cyrchiad ar: 3/5/2020)

Ffigur 8: Goldsworthy, A (1981) *Holes / Middleton Woods, Yorkshire / 1 February 1981* [Photograph, silver gelatin print on paper] Ar gael:

<https://www.tate.org.uk/art/artworks/goldsworthy-holes-middleton-woods-yorkshire-1-february-1981-p80076> (Cyrchiad ar: 2/4/2020)

Ffigur 9: Stevens, J (NASA Earth Observatory) (2020) *January 1 – February 25, 2020* [Digital image modified using Copernicus Sentinel 5P data processed by the European Space Agency] Ar gael:

<https://earthobservatory.nasa.gov/images/146362/airborne-nitrogen-dioxide-plummets-over-china?utm=carousel> (Cyrchiad ar: 3/4/2020)

Llenyddiaeth

Arts Review (July 16, 2018) *Robert Smithson: Time Crystals*, Australian Arts Review. Ar gael ar: <https://artsreview.com.au/robert-smithson-time-crystals/> (Cyrchiad ar: 7/5/2020)

BBC. (February 29, 2020) *Coronavirus: Nasa images show China pollution clear amid slowdown*, BBC News. Ar gael ar: <https://www.bbc.co.uk/news/world-asia-51691967> (Cyrchiad ar: 3/4/2020)

Crawford, A. (1997) *The Welsh Lens*. The Museum of Modern Art, Wales.

Delaney, H. (May 2010) *Andy Goldsworthy, Holes / Middleton Woods, Yorkshire / 1 February 1981*, Tate Museum. Ar gael ar: <https://www.tate.org.uk/art/artworks/goldsworthy-holes-middleton-woods-yorkshire-1-february-1981-p80076> (Cyrchiad ar: 2/4/2020)

Farago, J. (May 18, 2015) *Interview Michael Heizer*, The Guardian. Ar gael ar: <https://www.theguardian.com/artanddesign/2015/may/18/michael-heizer-art-rocks-city> (Cyrchiad ar: 8/5/2020)

Goldsworthy, A. (2004) *Hand to Earth*, Harry N. Abrams

Hashmi, Z. (November 27, 2013) *Richard Long's A Line Made by Walking*, Tate Museum. Ar gael ar: <https://www.tate.org.uk/tate-etc/issue-29-autumn-2013/richard-longs-line-made-by-walking> (Cyrchiad ar: 7/5/2020)

Henriques, M. (March 27, 2020) *Will Covid-19 have a lasting impact on the environment?*, BBC Future. Ar gael ar: <https://www.bbc.com/future/article/20200326-covid-19-the-impact-of-coronavirus-on-the-environment> (Cyrchiad ar: 3/4/2020)

Higgins, C. (June 15, 2012) *Richard Long Interview*, The Guardian. Ar gael ar: <https://www.theguardian.com/artanddesign/2012/jun/15/richard-long-swinging-60s-interview> (Cyrchiad ar: 7/5/2020)

Holt, N. (1977) *Sun Tunnels*, Artforum, Holt-Smithson Foundation. Ar gael ar: <https://holtsmithsonfoundation.org/sun-tunnels-0> (Cyrchiad ar: 7/5/2020)

Lindquist, G. (August 13, 2013) *A Summer Pilgrimage to Nevada's Double Negative*, Hyperallergic. Ar gael ar: <https://hyperallergic.com/78682/a-summer-pilgrimage-to-nevadas-double-negative/> (Cyrchiad ar: 8/5/2020)

McAllister, F (2020) *Visits to Tourist Attractions in Wales 2018 Report for Visit Wales*. Beaufort Research Ltd. Welsh Government. Ar gael ar: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-01/visits-to-tourist-attractions-in-wales-2018.pdf> (Cyrchiad ar: 23/4/2020)

McGrath, M. (March 19, 2020) *Coronavirus: Air pollution and CO2 fall rapidly as virus spreads*, BBC News. Ar gael ar: <https://www.bbc.co.uk/news/science-environment-51944780> (Cyrchiad ar: 3/4/2020)

Northstar. (August 22, 2018) *Analysis of The Grauballe Man*, Esmabike. Ar gael ar: <https://esmabbostanci.wordpress.com/2018/08/22/analysis-of-the-grauballe-man/> (Cyrchiad ar: 6/5/2020)

Patel, K. (2020) *Airborne Nitrogen Dioxide Plummets Over China*, NASA Earth Observatory. Ar gael ar: <https://earthobservatory.nasa.gov/images/146362/airborne-nitrogen-dioxide-plummets-over-china?utm=carousel> (Cyrchiad ar: 3/4/2020)

Phaidon (2016) *A Movement in a Moment: Land Art*, Phaidon. Ar gael ar: <https://uk.phaidon.com/agenda/art/articles/2016/june/02/a-movement-in-a-moment-land-art/> (Cyrchiad ar: 20/3/2020)

Rexer, R. (March 7, 2019) *Nancy Holt's Sun Tunnels: interview with Dia curator Kelly Kivland*, Sculpture Nature. Ar gael ar: <https://www.sculpturenature.com/en/nancy-holts-sun-tunnels-land-art-dia-kelly-kivland/> (Cyrchiad ar: 3/4/2020)

Scovell, A. (August 13, 2016) *Responses: Richards Long's A Line Made By Walking (1967)*, Celluloid Wicker Man. Ar gael ar: <https://celluloidwickerman.com/2016/08/13/responses-richard-longs-a-line-made-by-walking-1967/> (Cyrchiad ar: 7/5/2020)

Smithson, R. (1979) *Robert Smithson: The Collected Writings*, University of California Press. Ar gael ar: https://books.google.co.uk/books?hl=en&lr=&id=G7AwDwAAQBAJ&oi=fnd&pg=PR9&dq=Robert+Hobbs,+Robert+Smithson:+A+Retrospective+View&ots=epjbAPIQvS&sig=ajPXQ-mOELniX8YV_Mwix4FM-U0&redir_esc=y#v=onepage&q=rocks%20and%20mirror&f=false (Cyrchiad ar: 7/5/2020)

Tate (Year Unknown) *Andy Goldsworthy*, Tate Museum. Ar gael ar: <https://www.tate.org.uk/art/artists/andy-goldsworthy-7274> (Cyrchiad ar: 2/4/2020)

Tate (Year Unknown) *Art Term Conceptual Art*, Tate Museum. Ar gael ar: <https://www.tate.org.uk/art/art-terms/c/conceptual-art> (Cyrchiad ar: 2/4/2020)

Tate (Year Unknown) *Art Term Land Art*, Tate Museum. Ar gael ar: <https://www.tate.org.uk/art/art-terms//land-art> (Cyrchiad ar: 2/4/2020)

The Art Story (Year Unknown) *Earth Art*, The Art Story Foundation. Ar gael ar: <https://www.theartstory.org/movement/earth-art/> (Cyrchiad ar: 22/4/2020)

Unknown (2011) *Land Art*. Ar gael ar: <https://resources.saylor.org/wwwresources/archived/site/wp-content/uploads/2011/05/Land-Art.pdf> (Cyrchiad ar: 9/4/2020)

Visual Art Cork (Year Unknown) *Land Art*, Encyclopedia of Art. Ar gael ar: <http://www.visual-arts-cork.com/land-art.htm> (Cyrchiad ar: 3/5/2020)